# HANES UN O YSGOLION CYNTAF GWALCHMAI

Ymddengys fod Ysgolion Cylch "Circulating Schools" wedi eu cynnal a'u mynychu yn rheolaidd ym mhlwyf Trewalchmai yn ystod y ddeunawfed ganrif. Cynhaliwyd yr ysgolion yma mewn tai, caeau, pebyll neu unrhyw le oedd ddigon addas yn y pentef. Cyflwynwyd hwy gan ysgolheigion oedd yn teithio o ardal i ardal. Yn 1836 adroddwyd fod ysgol gan Eglwys Lloegr yn cael ei chynnal yn wythnosol yn y plwyf mewn adeilad oedd ar dir yn perthyn i'r Eglwys "glebeland" (mwy na thebyg, cyfeirio maent at Hen Ysgoldy yng Ngwalchmai Uchaf).

Cofnodwyd fod 30 o enethod a 56 o fechgyn wedi eu cofrestru. Cynigiwyd addysg iddynt am 1d yr wythnos. Teiliwr oedd yr athro, derbyniodd gyflog o £10 y flwyddyn a chafodd hefyd gadw'r tâl wythnosol am addysg y plant.

Derbyniodd yr ysgol adroddiad anffafriol gan yr Arolygwyr yn 1850. Adroddwyd fod cyflwr y dodrefn yn is na'r safon, yr adeilad a'r dosbarthiadau yn fudr, yr addysg yn gyfyngedig a'r athro yn anghymwys. Yn wir cofnodwyd fod yr holl ysgol angen ei diwygio.

Yn 1854 trosglwyddodd y Parchedig J.W. Jones, rheithor Trewalchmai Heneglwys, gyda chaniatâd Esgob Bangor ac o dan awdurdod y "School Act" yr holl dir ger yr eglwys a enwir yn Llain y Gloch i'w Wardeiniaid a'r Ficer ar y pryd i'w ddefnyddio fel safle i godi adeilad i addysgu plant ac oedolion anghenus yr ardal. Felly yn 1855 adeiladwyd Ysgol Genedlaethol "National School". Agorwyd hi yn 1856 gyda'r amod y byddai ynghlwm â'r "National Society" sef cymdeithas i ddarparu addysg yn cael ei rheoli gan Eglwys Lloegr. Golygai hyn y byddai goruchwyliaeth uniongyrchol gan yr Eglwys am addysg grefyddol, hwythau hefyd fyddai'n rhedeg yr Ysgol Sul. Amod arall oedd y dylai pob swydd gael ei llenwi gan aelod o'r Eglwys. Os y byddai unrhyw anghydfod ynglyn â'r swyddi yna fe fyddai'r Esgob yn ymyrryd ac yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Yn ei hamser roedd yr ysgol fawr nobl yn mesur 39′ x 18′. Roedd drws a ffenestr ym mhob talcen a simdde fawr yn y canol. Yn ei hanterth roedd 4 dosbarth wedi eu gwahanu gyda llenni a dwy iard, un i'r genethod ac un i'r bechgyn. Ar y dechrau byddai ar gyfartaledd rhwng 34 a 43 yn mynychu'n rheolaidd, rhai hyd yn oed yn teithio o Fryngwran (gan nad oedd yno ddarpariaeth addysgol o'r fath ar y pryd.) Un o ofynion i gael mynychu'r Ysgol Genedlaethol oedd eich bod hefyd yn mynychu gwasanaethau'r Eglwys yn rheolaidd ar y Sul. Heb os, yn ystod y cyfnod yma Eglwys Lloegr oedd unig ffynhonnell addysg i'r tlawd ac oherwydd hyn roeddent yn gallu sicrhau cynulleidfa fawr ar y Sul.

Misoedd wedi agor yr Ysgol Genedlaethol agorwyd ysgol arall fel cystadleuaeth yn y pentref sef yr Ysgol Brydeinig "British School" mewn adeilad dros dro yng Ngwalchmai Uchaf. Cefnogwyd yr ysgol yma gan yr Ymneilltuwyr Methodistaidd. Yn wir, roedd yn gyfnod chwyldroadol iawn rhwng yr enwadau crefyddol ym Môn gyda phawb yn ymladd am y gorau am oruchafiaeth addysgol yn eu hardal.

hardd.

Mae cofnod trylwyr o'r gweithgareddau, presenoldeb disgyblion, salwch, ymweliadau'r rheolwyr/arolygwyr a safon yr addysg i'w weld yn llyfr Log yr Ysgol (1863 i 1880) yn yr Archifdy yn Llangefni. Yn 1863 penodwyd 4 staff cymwys i'r ysgol sef yr athro John Jones o 10 Highfield Road, Colwyn, Jane Evans athrawes dosbarth, Jane Jones athrawes gwnïo a Letitia A. Jones, y monitor. Roedd yr holl wersi drwy gyfrwng y Saesneg - gyda chosb eithafol am ddefnyddio'r Gymraeg, hyd yn oed yn ystod amser chwarae.

Gyda dyfodiad y "School Board" yn 1873, adroddodd H.S. Priestly, y Rheolwr lleol fod gwir angen adeilad newydd (gan fod nawr oddeutu 94 ar y llyfrau). Bu cytundeb i ehangu a gwario £600 ar yr Ysgol Brydeinig a daeth cyfnod llewyrchus yr Ysgol Genedlaethol i ben. Caewyd yr drws am y tro olaf yn 1881. Addaswyd ychydig ar yr adeilad er mwyn ei droi yn neuadd hwylus, caewyd y drws a'r ffenestr yn yr ochr ddeheuol (mae'r hen linteri llechen yn dal i'w gweld yn y talcen hyd heddiw), lle bu mynedfa'r genethod ac adeiladwyd llwyfan oddi mewn i'r adeilad. Cynhaliwyd amryw o weithgareddau a nosweithiau adloniant yn y neuadd. Dwi'n sicr fod gan llawer ohonoch atgofion melys o'r nosweithiau coffi, brecwastau priodas, 'jumble sales', 'watch nights', gyrfa chwist, dawnsfeydd a chlwb y 'Girls Friendly Society'. Hefyd cafwyd cyfle i wrando a chael eich diddanu gan fandiau fel y 'Bing Boys'. Bu'r adeilad hefyd yn cael ei ddefnyddio fel lleoliad i'r 'Home Guard' yn ystod y rhyfel ac ymhen blynyddoedd fel ystafell newid i'r clwb pêl-droed. Yn wir, fel neuadd mae wedi chwarae rhan arbennig yn niwylliant a hanes y pentref. Drwy'r cyfnod yma parhaodd yr Eglwys i gynnal Ysgol Sul lewyrchus yn yr adeilad.

Ond yn drist, erbyn y saithdegau, ofer fu'r ymdrech gan yr Eglwys i gadw'r adeilad yn agored fod Neuadd/Ysgol Sul. Daeth y gost angenrheidiol o gynnal a chadw yn drech arnynt a chaewyd y drws am y tro olaf. Sefyll yn segur fel ystorfa i ddal offer dibwys a dirywio o flwyddyn i flwyddyn fu hanes yr adeilad.